

Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

Adroddiad Blynyddol

Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

sirgar.gov.uk

Cynnwys

Eitem	Teitl	Rhif y Dudalen
	Rhagair gan y Cadeirydd	3
1.	Cyflwyniad	4
2.	Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2023/24	4
2.1	Rôl Craffu	4
2.2	Y Blaengynllun Gwaith	5
2.3	Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio	6
2.4	Monitro Perfformiad / Materion Strategol	6
	2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022-23	6
	2.4.2 2023/24 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor	7
	2.4.3 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau	7
2.5	Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf	7
	2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb	7
	2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27	8
2.6	Yr Adran Cymunedau	8
	2.6.1 Adroddiad Diweddarau - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch rhoi'r polisi dyrannu newydd ar waith	8
	2.6.2 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 2022-23	8
	2.6.3 Adolygiad o Bolisi Taliadau'r Gwasanaeth Tai	9
	2.6.4 Cymhwyso Bwriadoldeb i Angen Blaenoriaethol (Gorchymyn Digartrefedd)	9
	2.6.5 Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored	10
	2.6.6 Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Addasiadau	10
	2.6.7 Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2024/25	10
	2.6.8 Cynllun Busnes 2024-27 y Cyfrif Refeniw Tai	10
	2.6.9 Cynllun Cymhelliant i Denantiaid	11
2.7	Adran y Prif Weithredwr	
	2.7.1 Diweddariad ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin	11
	2.7.2 Diweddariad ynghylch Rhaglen Arfor 2	12
	2.7.3 Adroddiad Cynnydd Pentre Awel	12
2.8	Yr Adran Lle a Seilwaith	13
	2.8.1 Diweddariad ynghylch Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	13
	2.8.2 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Aseiad Cynaliadwyedd Integredig ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (gan gynnwys Atodiadau) – Ymgynghoriadau Pellach	13
	2.8.3 Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA) Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033	14
3	Gweithgarwch Craffu Arall	14
	3.1 Gorchwyl a Gorffen	14
	3.2 Ymweliadau Safle	15
	3.3 Sesiynau Datblygu	15
4.	Effaith	16

	4.1	Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?	16
5.		Ymgysylltu â'r Cyhoedd	17
6.		Heriau	17
7.		Gwaith yn y Dyfodol	17
8.		Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu	18
9.		Presenoldeb	18

Rhagair gan y Cadeirydd



Y Cyngorydd Deryk Cundy
Cadeirydd – Mai 2023 i Chwefror 2024



Y Cyngorydd Rob Evans
Cadeirydd – Mawrth - Mai 2024

Fel Cadeiryddion y Pwyllgor hwn ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24, rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn ac yn rhoi cyfle i fyfrio ar y gwaith hwnnw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Cyngor unwaith eto, a theimlwn fod y Pwyllgor hwn wedi parhau i chwarae ei ran yn adeiladol o ran craffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisiau a phenderfyniadau allweddol y cyngor.

Mae'n siŵr y bydd y flwyddyn sydd i ddod yn heriol eto, ond rydym yn hyderus y bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar sut i wella gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i breswylwyr Sir Gaerfyrddin. Rydym yn sicr y bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Uwch-reolwyr a Staff y Cyngor i sicrhau y bydd 2024/25 yn flwyddyn gynhyrchiol.

Hoffem hefyd ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau a'u hymroddiad yn ystod 2023/24.

**Cyngorydd Deryk Cundy / Cyngorydd Rob Evans
Cadeiryddon y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 2023/2024**

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol*".

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Y Cynghorydd Deryk Cundy ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2023/24

2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd cylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn gyfrifol am graffu ar y tri phortffolio Cabinet a meysydd gwasanaeth canlynol:

Cartrefi

Polisi Tai	Digartrefedd
Tai'r Sector Preifat	Cynnal a Chadw Tai ac Atgyweiriadau
Addasiadau Tai	Tai Fforddiadwy a Dewisiadau Tai
Cymorth Tenantiaethau (Grant Cymorth Tai)	

Materion Gwledig a Pholisi Cynllunio

Materion Gwledig ac Ymgysylltu Cymunedol	Adfywio Gwledig
Marchnadoedd, Martiau a Rhandiroedd	Gorfodaeth Cynllunio
Cynllun Datblygu Lleol	Gwasanaethau Cynllunio (Yr Adran Gynllunio)
Mynediad at Wasanaethau Gwledig	Menter Deg Tref
Cydraddoldebau - Cymuned	

Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth

Canolfannau Hamdden	Amgueddfeydd
Llyfrgelloedd	Parciau Gwledig
Twristiaeth	Datblygu Economaidd
Cynllun Adfer Economaidd	Strategaeth Adfywio

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio,
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw,
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor,
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol,
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisiau,
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori,
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau

bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor y gellid dosbarthu rhai adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos er mwyn ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn ei Flaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 7 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Ymchwiliadau Craffu Un Diwrnod ac Ymweliadau Safle â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022/23

Ym mis Medi, 2023 derbyniodd y Pwyllgor, drwy e-bost, Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2022/23 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed gyda 4 Amcan Llesiant (WBO) y Cyngor, fel y cytunwyd yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-27. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y ddau Amcan Llesiant sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau, sef:

AMCAN LLESIANT 2:	Galluogi ein preswylwyr i fyw ac heneiddio'n dda (Byw ac Heneiddio'n Dda)
--------------------------	---

AMCAN LLESIANT 3:	Gwneud ein cymunedau a'n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)
--------------------------	--

Canlyniad:

Er na chyflwynwyd sylwadau gan aelodau i'r ymgynghoriad e-bost, ystyriwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Cabinet ar 30 Hydref 2023 lle argymhellwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo ac yna cafodd ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd, 2023.

2.4.2 Adroddiadau Perfformiad 2023-24 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu hystyried gan y pwyllgor fel a ganlyn:

- Rhagfyr 2023 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2023/24
- Ebrill 2024 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2023/24

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

2.4.3 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, ystyriwyd a/neu dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i'r aelodau fel a ganlyn:-

- Medi 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2023;
- Medi 2023 – mewn perthynas ag Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022/23
- Tachwedd 2023 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2023
- Ionawr 2024 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2024
- Ebrill 2024 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2024

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr

oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

2.5.2 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 tan 2026/27

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 i 2026/27 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/2026 a 2026/27.

Canlyniad:

Fel rhan o ymgynghoriad eang yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25, roedd y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2024. Wedi hynny, cytunodd y Cabinet ar y Strategaeth ar 19 Chwefror 2024 a mabwysiadodd y Cyngor y Strategaeth ar 28 Chwefror 2024.

2.6 YR ADRAN CYMUNEDAU

2.6.1 Adroddiad Diweddar - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ynghylch rhoi'r polisi dyrannu newydd ar waith

Ym mis Mehefin 2023 derbyniodd y Pwyllgor, yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, adroddiad monitro ar effeithiolrwydd yr Adroddiad Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys a ddatblygwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Fel rhan o'r broses fonitro, cododd y pwyllgor nifer o faterion a oedd yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflwyno Polisi Dyrannu Newydd a nifer yr eiddo a oedd yn cyfateb yn uniongyrchol ac yn cael eu hysbysebu ar Canfod Cartref.

Canlyniad:-

Derbyniwyd yr adroddiad monitro.

2.6.2 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ar gyfer 2022/23

Ym mis Mehefin 2023 derbyniodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 a gynhyrchwyd yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor gan ddarparu trosolwg o'i raglen waith ar gyfer 2022/23 a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion y cyfeirir atynt, neu gan y Cabinet, Adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

Fel rhan o'i drafodaethau ar yr adroddiad, cyfeiriodd y Pwyllgor at ddarparu cynnig addysg awyr agored amgen a cheisiodd eglurhad ar ddefnydd y cyfleuster preswyl awyr agored presennol ym Mhentywyn yn y dyfodol. Atgoffwyd bod adroddiad yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Cabinet ar ôl ymgynghori ar y cynnig addysg awyr agored amgen arfaethedig yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022. Gofynnodd i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn y Cabinet.

Canlyniad:

Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol.

Dosbarthwyd yr adroddiad ar gyfleuster preswyl awyr agored Pentywyn i aelodau drwy e-bost i'w ystyried ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer cyflwyno sylwadau. Gan fod y polisi wedi ei gytuno i raddau helaeth gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, ni wnaeth symud ymlaen i'r Cabinet a chafodd ei weithredu.

2.6.3 Adolygiad o Bolisi Taliadau'r Gwasanaeth Tai

Ym mis Medi 2023 ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad o Bolisi Taliadau'r Gwasanaeth Tai gan gyflwyno'r 3 opsiwn canlynol ar gyfer gweithredu Polisi Taliadau Gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer taliadau a wneir gan Ddeiliaid Contractau (tenantiaid neu lesddeiliaid) am wasanaethau ychwanegol a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer ardaloedd cymunedol cyffredin neu gyfleusterau o fewn blociau o fflatiau sy'n eiddo i'r cyngor, cynlluniau gwarchod neu brosiectau tai â chymorth a oedd yn ychwanegol at y rhent cyffredinol.

- Opsiwn 1: Gwneud Dim - Cadw'r Polisi Taliadau am Wasanaethau presennol ar waith gyda chap o unrhyw gynnydd blynyddol posibl yn ei dâl rhent cyffredinol (gan gynnwys Taliadau am Wasanaethau) hyd at uchafswm codiad o £3 yr wythnos.
- Opsiwn 2: Gwaredu'r Cap yn raddol - Adolygu a diwygio'r polisi presennol gyda'r bwriad o gyflwyno cynnydd graddol dros gyfnod o dair blynedd i ddod â'r holl daliadau am wasanaethau yn unol ag adennill costau llawn. Bydd y cap dim ond yn dod i rym pan fydd y taliadau'n uwch na'r cap wythnosol y cytunwyd arno.
- Opsiwn 3: Gwaredu'r Cap - Gwaredu'r cap yn llwyr o'r polisi presennol gyda deiliaid contractau yn talu cost lawn y defnydd o 2024/25 ymlaen.

Roedd y Pwyllgor ar ôl ystyried y tri opsiwn yn teimlo y dylid mabwysiadu Opsiwn 2, yn amodol ar adolygiad rheolaidd, ond o ystyried yr effaith bosibl y gallai ei chael ar allu'r tenant i dalu/mynd i ôl-ddyledion, cytunodd i argymhell i'r Cabinet bod swyddogion yn darparu cymorth / cefnogaeth i denantiaid reoli eu cyllidebau lle bo angen.

Canlyniad:

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet y dylid mabwysiadu Opsiwn 2. Er y trefnwyd bod yr adroddiad i ddechrau yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 13 Tachwedd, 2023, cafodd ei ymgorffori wedyn yn y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2024/25 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu ar 13 Rhagfyr 2023.

Cafodd adroddiad y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2024/25 ei ystyried gan y Cabinet ar 15 Ionawr 2024 a'i fabwysiadu gan y Cyngor ar 24 Ionawr 2024

2.6.4 Cymhwyso Bwriadoldeb i Angen Blaenoriaethol (Gorchymyn Digartrefedd)

Ym mis Medi 2023 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar y Cyngor yn cadw bwriadoldeb ar gyfer pob un o'r deg categori angen blaenoriaethol a restrir o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (fel y manylwyd yn yr adroddiad ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2015) a hefyd i gymhwyso bwriadoldeb i 11^{eg} categori o Ddigartref ac ar y Stryd, fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022.

Cododd y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth nifer o gwestiynau ar yr adroddiad gan gynnwys dyletswydd gyfreithiol y cyngor i ddarparu llety dros dro a'r math o dystiolaeth/meini prawf sydd eu hangen i brofi bwriadoldeb.

Canlyniad:

Argymhellodd y Pwyllgor i'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad i gadw bwriadoldeb ar gyfer pob un o'r 10 categori angen blaenoriaethol a restrir o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (fel y manylir yn yr adroddiad ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2015) a hefyd i gymhwyso bwriadoldeb i 11^{eg} categori o Ddigartref ac ar y Stryd. Mabwysiadodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 16 Hydref, 2023

2.6.5 Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored

Ym mis Medi 2023, derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad terfynol ar ôl yr adolygiad ymgynghori ar Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored arfaethedig y Cyngor i'w ystyried cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ar yr adroddiad gan gynnwys y potensial i osod batris mewn Canolfannau Hamdden i storio ynni dros ben a gynhyrchir gan bŵer solar, buddsoddiad gwasanaeth dros gyfnod y strategaeth, cynhyrchu incwm, hyrwyddo'r Gymraeg a gwella lefel y ddarpariaeth pysgota.

Canlyniad:

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth ac argymhellodd ei mabwysiadu i'r Cabinet a gymeradwywyd wedyn gan y Cabinet ar 13 Tachwedd, 2023

2.6.6 Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Addasiadau

Ym mis Tachwedd 2023, trafododd y Pwyllgor sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar weithrediad y Gwasanaeth Addasiadau yn yr Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol.

Canlyniad:

Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 aelod, sy'n gytbwys yn wleidyddol.

2.6.7 Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai 2024/25

Ym mis Rhagfyr 2023, ystyriodd y Pwyllgor y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2024/25, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif offer yn cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+).

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cynnydd arfaethedig mewn rhent i'w cyflwyno er ystyriaeth y Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r cynnig ynghylch y gyllideb i'r Cyngor.

Canlyniad:

Mabwysiadwyd cynigion y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a chan y Cyngor ar 24 Ionawr 2024.

2.6.8 Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-27 Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin

Ym mis Rhagfyr 2023, ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-27 a Rhaglen Buddsoddiadau Tai Sir Gaerfyrddin. Roedd y Cynllun yn ymdrin â'r 5 prif thema ganlynol:

- Thema 1 – Ein Cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaethau.
- Thema 2 – Buddsoddi mewn Cartrefi.
- Thema 3 - Hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy a datgarboneiddio ein stoc dai.
- Thema 4 - Darparu rhagor o dai.
- Thema 5 - Yr Economi Leol, Budd i'r Gymuned a Chaffael

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys cyflwyno cynnig rheoli ystadau a thenantiaethau newydd, cynllun peilot 'tasgmon', lleihau amser y mae eiddo'n wag a gosod pymplau gwres o'r awyr a phaneli solar fel rhan o gyllid y Cyngor o £616k gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe – Cronfa Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Canlyniad:

Penderfynodd y Pwyllgor argymhell yr adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Ionawr 2024 a chan y Cyngor ar 24 Ionawr 2024.

2.6.9 Cynllun Cymhelliant i Denantiaid

Ym mis Ionawr 2024, derbyniodd y Pwyllgor, fel rhan o'r broses cyn gwneud penderfyniadau ar ddatblygiad polisi, adroddiad ynghylch a ddylai'r Cyngor gyflwyno cynllun cymhelliant i'w denantiaid ac ar ba ffurf ddylai'r cymhelliannau hynny fod. Roedd yr adroddiad yn manylu ar ystod o opsiynau cymhelliant i'w hystyried ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Annog tenantiaid i symud i eiddo llai.
- Annog tenantiaid sy'n gadael eu heiddo i'w gadael mewn cyflwr da a heb ôl-ddyledion rhent.
- Annog pobl i ddefnyddio debydau uniongyrchol.
- Cydnabod pan fydd tenantiaid yn helpu i wella ein gwasanaethau.
- Annog neu wobrwyo tenantiaid sy'n cadw at amodau eu contract (tenantiaeth).

Canlyniad:

Cymeradwyodd y Pwyllgor fod y cynllun cymhelliant yn cael ei gyflwyno. Roedd gwaith pellach nawr yn cael ei wneud ar fecaneg y cynllun a'r meini prawf cymhwysedd ac ati a byddai'n cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol i'w hystyried ar gyflwyno cynllun peilot.

2.7 Adran y Prif Weithredwr

2.7.1 Diweddariad ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Ym mis Tachwedd 2023 derbyniodd y Pwyllgor, yn unol â chais a wnaed yn ei Sesiwn Blaengynllunio ym mis Ebrill 2023, adroddiad diweddaru ar gynnydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yn Sir Gaerfyrddin yn nodi:

- Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau Lleol
- Tîm Rheoli Rhaglen
- Gweithredu a Chyflawni
- Hawlio a Monitro Ariannol

Nododd y Pwyllgor fod dyraniad y Cyngor o'r Gronfa yn £38.6m ac ers ei lansio ar 6 Mawrth 2023 roedd cyfanswm o £19.68m o brosiectau Angor a Strategol wedi'u cymeradwyo ynghyd â £5.5m arall ar gyfer y Rhaglen Rhifedd Oedolion Lluosi gan ddod â'r cyfanswm presennol i £25.18m.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddarau.

2.7.2 Diweddariad ynghylch Rhaglen Arfor 2

Ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd y Pwyllgor, yn unol â chais a wnaed yn ei Sesiwn Blaen-gynllunio ym mis Ebrill 2023, adroddiad diweddarau ar gynnydd Rhaglen Arfor 2 yn Sir Gaerfyrddin a oedd yn darparu cyfleoedd i gefnogi adfywiad economaidd y Sir tra'n cyfrannu at dwf y Gymraeg.

Nodwyd mai amcanion strategol allweddol Arfor 2 oedd:-

- Creu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd (dan 35 oed) aros yn eu cymunedau brodorol neu ddychwelyd iddynt – gan eu cefnogi i lwyddo yn lleol drwy gymryd rhan mewn menter neu ddatblygu gyrfa.
- Creu cymunedau mentrus o fewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith – drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu at warchod a chynyddu cyfoeth lleol drwy fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
- Manteisio i'r eithaf ar weithgarwch drwy gydweithio – er mwyn sicrhau bod arferion da a gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu a bod monitro parhaus yn digwydd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.
- Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg – drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog ymdeimlad o le a theyrngarwch lleol.

Canlyniad:

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddarau.

2.7.3 Adroddiad Cynnydd Pentre Awel

Ym mis Ebrill 2024 derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar Brosiect Pentre Awel a sicrwydd bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r targedau a'r terfyn amser.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion sy'n berthnasol i ddatblygiad y safle a oedd yn cynnwys:

- Y goblygiadau refeniw - lle sicrhawyd, yn seiliedig ar y cynllun busnes gwreiddiol a'r defnydd llawn, y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â gweithrediad y safle yn cael eu talu trwy gostau rhentu a phrydlesu.
- Y goblygiadau cyllidebol i'r Is-adran Gwasanaethau Hamdden wrth weithredu'r Ganolfan Hamdden Newydd. Hysbyswyd, o ystyried potensial cynhyrchu incwm uwch y ganolfan, na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar y gyllideb, ac y byddai'r ddarpariaeth ar ei chyfer wedi ei chynnwys yn y gyllideb.
- Creu llysgenhadon cymunedol.
- Darparu cartref nyrsio a weithredir yn gyhoeddus.
- Darparu bysiau i'r safle.
- Gorchymyn Ffyrdd i leihau cyflymder traffig ar hyd y brif ffordd wrth ymyl y Datblygiad.

Canlyniad:

Derbyniwyd yr adroddiad cynnydd.

2.8 Adran Lle a Seilwaith

2.8.1 Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth - Diweddariad

Ym mis Mehefin 2023 derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddar ar yr estyniad arfaethedig i 10 Ardal Gadwraeth yn Sir Gaerfyrddin, a ystyriwyd yn wreiddiol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023. Atgoffwyd ei bod yn y cyfarfod hwnnw wedi cytuno i fynd at Lywodraeth Cymru ynghylch y mater o gyfyngu ar osod paneli solar ar ddrychiad blaen toeau mewn Ardaloedd Cadwraeth. Fodd bynnag, argymhelliad yr adroddiad diweddar oedd peidio â dilyn y camau gweithredu ond yn hytrach gofyn i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd edrych ar y mater ehangach o effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc tai hanesyddol y Sir.

Canlyniad:

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig a phenderfynodd ofyn i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd edrych ar y mater ehangach o effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc tai hanesyddol y Sir.
2. Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023 yr atgyfeiriad a gofynnodd am ychwanegu adroddiad yn darparu data a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni mewn perthynas â stoc dai hanesyddol y Sir at Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor.

2.8.2 – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 – Aseiad Cynaliadwyedd Integredig ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (gan gynnwys Adenda) – Ymgynghori Pellach

Ym mis Ionawr 2024 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch a ddylai'r Cyngor ymrwymo i gyfnod ymgynghori pellach ar Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033, Aseiad Cynaliadwyedd Integredig ac Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (gan gynnwys Adenda), i adlewyrchu'r heriau gweithdrefnol parhaus wrth fodloni gofynion y rheoliadau cynefinoedd sy'n codi o ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol

gwarchoddedig ac ansawdd dŵr, yr angen i sicrhau bod paratoad y Cynllun ac ystyriaeth o'i gwmpas a'i gynnwys yn cydymffurfio'n weithdrefnol mewn termau deddfwriaethol a rheoleiddiol.

Canlyniad:

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad ar gyfer cynnal ymgynghoriadau pellach. Mabwysiadwyd hynny hefyd gan y Cabinet ar 29 Ionawr 2024.

2.8.3 Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft (CCA) Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Ym mis Ionawr 2024 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch a ddylai'r Cyngor ymrwmo i gyfnod ymgynghori pellach ar y Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.

- Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur
- Yr Iaith Gymraeg
- Gofynion Mannau Agored ar gyfer Integreiddio Mannau Agored o fewn Datblygiadau Preswyl Newydd

Wrth gymeradwyo'r CCA ar gyfer ymgynghori, cododd y Pwyllgor fater cynnwys Aelodau a chytunodd y byddai'n fuddiol i aelodau dderbyn seminar ar Gytundebau Adran 106 i'w cynorthwyo i ddeall eu rôl, fel Aelodau Etholedig, a pharmedrau cyfreithiol y Cytundebau hynny.

Canlyniad:

Cadarnhaodd y Pwyllgor yr ymgynghoriadau pellach i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

Mae trefniadau i'w gwneud ar gyfer y Seminar nad oeddent wedi'u cwblhau eto ar y dyddiad ysgrifennu.

3 Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

Pwrpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw cyfrannu at ddatblygu polisi newydd neu ymgymryd â darn o waith craffu ymchwiliol. Mae grwpiau o'r fath wedi bod yn allweddol wrth gryfhau datblygiad polisi / rolau craffu ymchwiliol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod blwyddyn y cyngor, fel rhan o'i rôl ymchwiliol, aeth y Pwyllgor ati i lunio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu gweithrediad y Gwasanaeth Addasiadau yn yr Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol.

Amcanion a chwmpas yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen oedd:

- Adolygu gweithrediad y Gwasanaeth Addasu.

- Nodi dulliau o archwilio'r ôl-groniad presennol o waith a phrosesau gyda'r bwriad o wella darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd a deiliaid contractau (tenantiaid)
- Llunio argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet.

Roedd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 aelod etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn ei gyfanrwydd, cyn belled ag y bo modd:-

Plaid Cymru:	Y Cynghorwyr K. Howells, B. Jones ac R. Sparkes
Y Grŵp Annibynnol:	Y Cynghorydd H. Shepardson
Grŵp Llafur:	Y Cynghorwyr D. Cundy ac M. Palfreman

Cyfarfu'r Grŵp ar 5 achlysur rhwng Rhagfyr 2023 a Mai 2024 a arweiniodd at lunio dau argymhelliad.

Bydd adroddiad terfynol y Grŵp yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio ym mis Mai cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried yn haf 2024

3.2 Ymweliadau Safle

Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o Ymweliadau Safle yn ystod 2023 – 2024 i ymgyfarwyddo â meysydd cyfrifoldeb sy'n dod o fewn ei gylch gwaith h.y:

- 23 Mehefin 2023 – Amgueddfa Abergwili, Archifau Caerfyrddin, Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn a Chanolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn.
- 14 Gorffennaf 2023 – Parc Gwledig Pen-bre, Harbwr Porth Tywyn a Pharc Howard, Llanelli
- 2 Chwefror 2024 – Canol Trefi Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli
- 16 Ebrill 2024 – Datblygiad Pentre Awel, Llanelli

Canlyniad:

Cafodd y Pwyllgor wybodaeth uniongyrchol am y meysydd pwnc o fewn ei gylch gwaith a fyddai'n fanteisiol mewn unrhyw drafodaethau/adroddiadau ar y meysydd hynny yn y dyfodol.

3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:

- 21 Mehefin – Atgyweiriadau Tai
- 7 Awst – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Ymgyngoriad ar Wasanaethau Brys ac Argyfwng i Blant a Phobl Ifanc yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili
- 13 Medi – Cymorth Trechu Tlodi
- 8 Tachwedd – Rheoli'r Trysorlys
- 22 Tachwedd – TG Strategaeth Ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial
- 30 Tachwedd – Hyfforddiant Geodiscoverer
- 6 Rhagfyr – Lle a Seilwaith – Diweddariadau Gwasanaeth
- 7 Rhagfyr – Hyfforddiant Geodiscoverer
- 8 Rhagfyr – Trawsnewid Digidol
- 9 Ionawr 2024 – Deallusrwydd Artiffisial a Strategaeth Ddigidol
- Ionawr – Ymgyngoriadau Amrywiol am y Gyllideb

- 23/26 Chwefror / 7 Mawrth – Cyflwyniad i Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth
- 6 Mawrth – Cyfrifoldeb Llifogydd
- 8 Mai – Diogelu Corfforaethol

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol:

- 10 Hydref – Ailddatblygu Ward Tyisha yn Llanelli – Roedd y sesiwn hon yn cynnwys cyflwyniad powerpoint ar y Prosiect Trawsnewid Lleoedd ar gyfer Ward Tyisha sy'n cwmpasu'r prif bwyntiau canlynol:
 - Cefndir i'r Prosiect
 - Y Tîm sy'n ymgymryd â'r prosiect.
 - Grwpiau Llywio a Gweithdai
 - Tai ac Adfywio
 - Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth
 - Troseddau ac Anhrefn
 - Plant, Teulu a'r Gymuned
 - Edrych i'r Dyfodol
- 2 Chwefror 2024 – Defnyddiau Canol Tref Amgen. Cynhaliodd y Pwyllgor, fel rhan o'r dull cyn-graffu o ddatblygu polisi, ymweliadau safle â chanol trefi'r tair prif dref yn y Sir yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli i gael cipolwg ar y materion sy'n wynebu'r canol trefi cyn ystyried adroddiad ar Ddefnyddiau Canol Tref Amgen yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024.
- 9 Chwefror 2024 – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Newydd i ddisodli'r polisi brys dros dro presennol – Roedd y sesiwn hon yn rhan o'r dull cyn-graffu o ddatblygu polisi gan ymgynghori â'r pwyllgor ar Bolisi Dyrannu Tai Cymdeithasol newydd y Cyngor yn dilyn datblygu'r Polisi Dyrannu Brys gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor a fabwysiadwyd gan y Cabinet ym mis Ebrill 2023. Yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2024, nododd y byddai polisi drafft yn cael ei gyflwyno i'w gyfarfod ym mis Gorffennaf cyn i'r Cabinet a'r Cyngor ei gymeradwyo ym mis Medi a Hydref 2024 i'w weithredu'n llawn ym mis Rhagfyr 2024

4. Effaith

4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r mwyafrif o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o Gynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r weithrediaeth ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisiau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwmo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24, mae Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Datblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys
- Datblygu'r Strategaeth Hamdden a Hamdden Awyr Agored
- Trwy ymgymryd â'i rôl porthgadw wrth fonitro gwaith y Cabinet

5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2023/24, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys ystod o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori/cyfranogi cyhoeddus.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/pwyllgorau-a-chyfarfodydd/craffu/>

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

6. Heriau

Parhaodd yr Adrannau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgorau Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio (Cymunedau, Prif Weithredwyr a Lle a Chynaliadwyedd) i fod dan bwysau drwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i bandemig y coronafeirws a phwysau cyllidebol. Serch hynny, mae'r adrannau wedi addasu a datblygu atebion arloesol yn ystod amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen i barhau i ddarparu gwasanaethau i breswylwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adrannau ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisiau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Cafodd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25 ei ystyried mewn Sesiwn Blaengynllun Gwaith ar 16 Ebrill a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaenraglenni Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlynid a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynid gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

Am fwy o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaenraglenni Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb aelodau o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24 yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o saith cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24.

Aelod y Pwyllgor Craffu	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	%
Y Cynghorydd D. Cundy	7	100
Y Cynghorydd A. Davies	7	100
Y Cynghorydd B. Davies	2	29
Y Cynghorydd H. Davies	7	100
Y Cynghorydd T. Davies	7	100
Y Cynghorydd R. Evans	5	71
Y Cynghorydd K. Howell	6	86
Y Cynghorydd B. Jones	7	100
Y Cynghorydd D. Owen	5	71
Y Cynghorydd M. Palfreman	6	86
Y Cynghorydd H. Shepardson	6	86
Y Cynghorydd R. Sparks	5	71
Y Cynghorydd M. Thomas	5	71
Dirprwyon	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd J. Lewis	1	
Y Cynghorydd K Broom	3	
Y Cynghorydd L. Davies	1	
Y Cynghorydd A. Evans	1	
Aelodau'r Cabinet	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd	
Y Cynghorydd L.D. Evans	7	
Y Cynghorydd A. Davies	4	
Y Cynghorydd G. John (Hyd at Awst 2023)	0	
Y Cynghorydd A. Lenny	5	
Y Cynghorydd H.A.L. Evans (o fis Medi 2023)	4	
Y Cynghorydd E Thomas	1	